## Beth i'w Ddisgwyl o'r Digwyddiad Dilysu

Mae’r ddogfen dwy dudalen hon wedi’i dylunio i helpu ateb y prif gwestiynau sy’n ymwneud â’r broses ddilysu a pha gamau y dylech eu cymryd i sicrhau eich bod wedi paratoi cystal â phosibl ar gyfer y digwyddiad dilysu.

1. **Beth yw dilysu a beth yw ei ddiben?**
   Dilysu yw'r broses ffurfiol y mae prifysgol yn ei defnyddio i gael sicrwydd bod rhaglen astudio newydd yn addas i'r diben. Mae'n ystyried cydweddiad strategol y rhaglen a'r cymorth rheoli a ddarperir i gefnogi'r rhaglen. Ystyrir y cwricwlwm ynghyd ag enghreifftiau o'r defnydd arloesol o asesu yn ogystal ag addysgu sy'n seiliedig ar ymchwil. Bydd y broses ddilysu yn ceisio sicrhau bod gan yr ysgol yr adnoddau priodol (staff, gofod, ac offer) i gyflwyno'r rhaglen a gynigwyd i safon uchel a hefyd wedi dangos tystiolaeth yr ymgynghorwyd â rhanddeiliaid a myfyrwyr. Bydd cyngor allanol hefyd yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried rhaglenni.

2. **Beth yw'r broses ym Mhrifysgol Bangor?**
   Bydd dilysu rhaglen yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. Bydd angen i bob cynnig rhaglen fynd drwy broses gymeradwyo benodol; y Broses Cymeradwyo Weithredol, y Broses Grŵp Cyflawni Cymeradwyaeth Rhaglen Cwricwlwm, neu Banel Cymeradwyo Dilysu. Cyfrifir y broses gymeradwyo a ddewisir gan ddefnyddio meini prawf penodol sy'n ystyried elfennau megis faint o waith neu newidiadau sydd eu hangen, adnoddau, mewnbwn a ffactorau allanol a ffactorau risg eraill. Bydd yr Uned Gwella Ansawdd yn penderfynu pa ddull a ddefnyddir wrth ystyried cynigion rhaglen yn seiliedig ar y meini prawf hyn.

3. **Sut mae sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid a myfyrwyr?**
   Mae'n arfer da cael cynrychiolaeth myfyrwyr ar y panel dilysu. Bydd myfyrwyr sy'n asesu yn cael eu hyfforddi a'u trefnu drwy'r Uned Gwella Ansawdd. Bydd angen i fyfyrwyr sy'n asesu hefyd fod yn rhan o gynllunio'r rhaglen a bydd ganddynt fewnbwn wrth ddatblygu manyleb y rhaglen a modiwlau wedi'u halinio. Mae’n ofynnol i’r aelod o staff sy’n arwain ar ddatblygu’r rhaglen fod yn bresennol ac mae hefyd yn arfer da cael sawl aelod o dîm y rhaglen yn bresennol yn y digwyddiad dilysu fel y gall gwahanol aelodau’r tîm ymdrin â chwestiynau yn ôl eu maes arbenigedd.

4. **Mynd i’r afael â strategaeth addysgu a dysgu’r Brifysgol**
   Mae strategaeth addysgu a dysgu’r Brifysgol i’w gweld ar wefan Prifysgol Bangor. Mae’n bwysig eich bod yn gyfarwydd â strategaeth addysgu a dysgu’r Brifysgol gan y bydd y panel dilysu’n edrych am dystiolaeth bod elfennau allweddol y strategaeth wedi’u hintegreiddio’n benodol i’ch cynnig. Gall enghreifftiau gynnwys e-asesu a defnydd arloesol o asesu i optimeiddio dysgu a chyflawni deilliannau dysgu. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i’r tîm dilysu fod yn gyfarwydd â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni sydd i’w weld yn https://www.bangor.ac.uk/regulations/codes/code08.php.cy

5. **Adnoddau**
   Bydd y panel yn chwilio am dystiolaeth bod adnoddau priodol i redeg y rhaglen newydd arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys nifer addas o staff addysgu â chymwysterau a phrofiad priodol. Bydd y panel hefyd yn holi am gyfleusterau addysgu, gofynion adnoddau o feysydd

eraill yn y brifysgol a mannau eraill, yn ogystal ag unrhyw offer arbennig a allai fod eu hangen. A yw'r rhain yn eu lle ac a ydynt yn cael eu cefnogi'n briodol?

6. **Gofynion corff proffesiynol**
   Mae'n bob amser yn arfer da i ennill achrediad corff proffesiynol lle bo'n briodol ar gyfer rhaglen newydd. Mae'n rhoi sicrwydd i ddarpar fyfyrwyr bod y rhaglen yn bodloni safonau cenedlaethol yn y maes pwnc. Bydd rhaglen astudio achrededig yn aml yn caniatáu i fyfyrwyr ennill statws siartredig ar ôl cwblhau rhaglen astudio achrededig yn llwyddiannus ac ennill swm diffiniedig o brofiad gwaith. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y ddolen ganlynol ar gyfer peirianwyr yn enghraifft nodweddiadol (https://www.engc.org.uk/ceng).

   Wrth ystyried rhaglenni ag achrediad allanol, megis Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol, bydd angen dogfennu tystiolaeth o ymgynghoriad â'r rhain fel rhan o'r cynnig.

7. **Cyflogadwyedd (a lleoliadau)**
   Fel rhan o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Brifysgol i wella cyflogadwyedd myfyrwyr, bydd y panel dilysu eisiau gweld yn y proses dilysu pa gymorth a ddarperir i fyfyrwyr i wneud y mwyaf o'u siawns o gael swydd lefel graddedig. Sut mae cyflogadwyedd wedi'i integreiddio i'r cwricwlwm? Pa gyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n cofrestru ar y rhaglen i gael lleoliad? A oes cyfeiriad at raglen leoliadau'r Brifysgol a sut bydd cyfleoedd lleoliad yn cael eu hamlygu i'r myfyrwyr? A oes systemau priodol ar waith i gefnogi myfyrwyr ar leoliad ac i sicrhau bod unrhyw ofynion lleoliad yn cael eu bodloni?
   https://www.bangor.ac.uk/cy/bywyd-myfyrwyr/profiad-gwaith

8. **Y canlyniad – cymeradwyaeth, canmoliaeth, argymhellion ac amodau**
   Ar ddiwedd y digwyddiad dilysu, bydd Cadeirydd y panel yn adrodd yn ôl i'r tîm ar benderfyniad y panel. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai'r rhaglen gael ei chymeradwyo ac yn aml bydd tair set o ganlyniadau i gyd-fynd â hi. Dyma ganmoliaethau, argymhellion ac amodau. Canmoliaeth yw'r elfennau hynny o'r proses a dogfennaeth ddilysu yr oedd y panel yn meddwl eu bod yn arbennig o dda. Defnyddir canmoliaeth yn aml wedyn fel enghreifftiau o arfer da. Mae argymhellion mewn gwirionedd yn awgrymiadau a wnaed gan y panel y maent yn teimlo eu bod yn bethau a fydd yn gwella'r rhaglen a/neu'r modd y caiff ei chyflwyno. Mae'n syniad da cyflwyno'r holl argymhellion cyn i'r rhaglen gychwyn. Rhaid bodloni amodau a bydd terfyn amser ar rain bob tro. Rhaid bod tystiolaeth bod tîm y rhaglen wedi bodloni'r amodau gael ei chymeradwyo gan Gadeirydd y panel a'r Arbenigwr Pwnc Allanol. Bydd methiant i fodloni amodau'r digwyddiad dilysu fel arfer yn arwain at beidio â chaniatáu i'r rhaglen symud ymlaen i recriwtio myfyrwyr. O bryd i'w gilydd, gall y panel gyfeirio'r cynnig yn ôl i'r Ysgol, neu gymeradwyo'r cynnig gyda mân addasiadau y gellir eu cymeradwyo gan Gadeirydd y Panel Cymeradwyo unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

Yr Athro Martin Snowden & Dr Myfanwy Davies,
Awst 2023